BRO MORGANNWG

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD
2021-2036

# Mannau Agored

Tachwedd 2025



PAPUR CEFNDIR - PB31

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

## Crynodeb Gweithredol

### Adran Un – Archwiliad o'r Ddarpariaeth Mannau Agored Bresennol ym Mro Morgannwg

i. Mae adran gyntaf y papur cefndir yn cynnwys archwiliad o fannau agored ac mae'n ceisio nodi math, swm a dosbarthiad gofodol y mannau hamdden ac agored sydd ar gael ym Mro Morgannwg mewn termau 'meintiol' yn unig. Mae'r asesiad wedi'i seilio'n bennaf ar ymchwil bwrdd gwaith a gwybodaeth swyddogion sy'n gyfrifol am reoli a chynnal a chadw mannau agored. Wrth nodi a chategoreiddio'r mannau agored, mae defnydd sylweddol wedi'i wneud o system fapio ddigidol y Cyngor i gategoreiddio a mapio'r cyfleusterau a nodwyd.

ii. Bydd yr wybodaeth a gynhwysir yn yr archwiliad mannau agored yn cyfrannu at sylfaen dystiolaeth Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) Bro Morgannwg a bydd yn helpu i lywio'r polisïau a'r cynigion sy'n cael eu datblygu mewn perthynas â darparu mannau agored cyhoeddus.

iii. Mae'r archwiliad wedi'i seilio ar deipoleg y mannau agored a gynhwysir yn Nodyn Cyngor Technegol 16 Llywodraeth Cymru: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (Ionawr 2009) (NCT16). Mae'r categorïau canlynol o fannau agored sydd wedi'u cynnwys yn y deipoleg wedi'u heithrio o'r archwiliad - coridorau gwyrdd, ardaloedd hygyrch o gefn gwlad ar gyrion trefi, mannau dinesig a dŵr.

iv. Mae Tabl E1 yn disgrifio categorïau a nodweddion y teipolegau mannau agored sydd wedi'u hasesu.

**Tabl E1: Nodweddion Mannau Agored**

| Math o Fannau Agored | Disgrifiad | Diben |
|---|---|---|
| Parciau a Gerddi Cyhoeddus | Ardaloedd o dir sydd fel arfer wedi'u hamgáu, eu dylunio, eu hadeiladu, eu rheoli a'u cynnal a'u cadw fel parc neu ardd gyhoeddus. | Cyfleoedd hygyrch, o ansawdd uchel ar gyfer hamdden anffurfiol a digwyddiadau cymunedol. |
| Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled-Naturiol | Ardaloedd o dir heb eu datblygu neu a ddatblygwyd yn flaenorol gyda chynefinoedd naturiol gweddilliol neu sydd wedi'u plannu neu eu gwladychu gan | Addysg ac ymwybyddiaeth amgylcheddol, bioamrywiaeth a |

| | | |
|---|---|---|
| | lystyfiant a bywyd gwyllt, gan gynnwys ardaloedd coetir a gwlyptir. | chadwraeth bywyd gwyllt. |
| Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored | Ardaloedd mawr a gwastad yn gyffredinol o laswelltir neu arwynebau wedi'u dylunio'n arbennig, a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer chwaraeon dynodedig h.y. caeau chwarae, cyrsiau golff, cyrtiau tenis, lawntiau bowlio, ardaloedd y gellir eu harchebu yn gyffredinol. | Cymryd rhan mewn chwaraeon awyr agored, fel chwaraeon cae, tenis, bowlio, athletau neu chwaraeon cefn gwlad a dŵr. |
| Mannau Gwyrdd Amwynder | Ardaloedd wedi'u tirlunio sy'n darparu amwynder gweledol neu'n gwahanu gwahanol adeiladau neu ddefnyddiau tir am resymau amgylcheddol, gweledol neu ddiogelwch h.y. lleiniau ymyl ffyrdd, cylchfannau mawr neu fannau gwyrdd mewn parciau busnes. Ardaloedd o laswellt mewn ardaloedd tai sy'n cael eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau anffurfiol neu gymdeithasol fel chwarae. | Cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau anffurfiol yn agos at y cartref neu'r gwaith neu wella ymddangosiad ardaloedd preswyl neu ardaloedd eraill. |
| Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc | Ardaloedd sy'n darparu cyfleoedd diogel a hygyrch ar gyfer chwarae plant fel arfer yn gysylltiedig ag ardaloedd tai. | Ardaloedd sydd wedi'u dylunio'n bennaf ar gyfer chwarae a rhyngweithio cymdeithasol sy'n cynnwys plant a phobl ifanc, fel ardaloedd offer chwarae, cyrtiau pêl, ardaloedd sglefrfyrddio a llochesi i bobl ifanc yn eu harddegau. |
| Rhandiroedd | Ardaloedd o dir o faint amrywiol a geir fel arfer o fewn neu ychydig y tu allan i dref ac sy'n cynnwys nifer o blotiau sy'n cael eu rhentu i aelodau o'r gymuned. | Rhoi cyfleoedd i'r rhai sy'n dymuno dyfu eu cnydau bwyd eu hunain. Hyrwyddo cynaliadwyedd, iechyd a chynhwysiant cymdeithasol. |

| | | |
|---|---|---|
| Mynwentydd a Mynwentydd Eglwysi | Mynwentydd, mynwentydd eglwysi a thiroedd claddu eraill. | Myfyrdod tawel a chladdu'r meirw, yn aml yn gysylltiedig â hyrwyddo cadwraeth bywyd gwyllt a bioamrywiaeth. |

v. Lle bo’n berthnasol, mae teipolegau mannau agored wedi'u hasesu yn erbyn y safonau darpariaeth wedi'u diweddaru a gyhoeddwyd gan safonau Meysydd Chwarae Cymru (MChC) 2024. Mae'r ffigurau poblogaeth a ddefnyddiwyd yn yr asesiad wedi'u cymryd o boblogaethau Cyfrifiad 2021. Felly, dylid ystyried canfyddiadau’n bwyllog ac maent yn destun adolygiad.

## Mannau Agored ym Mro Morgannwg

vi. Mae canlyniadau'r archwiliad yn dangos maint a dosbarthiad gofodol yr ystod o fathau o fannau agored a arolygwyd ym Mro Morgannwg. Mae Tabl 2 a'r adrannau isod yn rhoi dadansoddiad a chrynodeb yn ôl teipoleg o nifer ac arwynebedd y mannau agored ym Mro Morgannwg ac mae gwybodaeth fanylach am bob teipoleg wedi'i chynnwys yn adrannau perthnasol yr adroddiad ac yn yr atodiadau.

vii. Mae'r asesiad yn eithrio unrhyw ardaloedd a ddyrannwyd o fewn y Cynllun Adneuo ar gyfer tai, cyflogaeth neu ddefnyddiau tir adeiledig eraill.

**Tabl E2: Dadansoddiad o'r Math o Fannau Agored ym Mro Morgannwg**

| Teipoleg | Nifer y safleoedd | Arwynebedd (hectarau) | % o'r Arwynebedd Cyfan | Darpariaeth fesul 1000 o'r boblogaeth |
|---|---|---|---|---|
| Parciau a Gerddi Cyhoeddus | 35 | 252.82 | 12.25 | 1.92 |
| Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled-Naturiol | 113 | 794.01 | 38.46 | 6.02 |
| Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored | 137 | 836.2 | 40.50 | 6.34 |
| Mannau Gwyrdd Amwynder | 393 | 109.52 | 5.30 | 0.83 |
| Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc | 175 | 11.53 | 0.56 | 0.09 |
| Rhandiroedd, gerddi cymunedol a ffermydd dinas | 27 | 19.70 | 0.95 | 0.15 |
| Mynwentydd a mynwentydd eglwysi | 64 | 37.61 | 1.82 | 0.29 |
| **Cyfanswm** | **943** | **2061.39** | **100** | |

## Parciau a Gerddi Cyhoeddus

viii. Mae parciau a gerddi'n ardaloedd o dir sydd fel arfer wedi'u hamgáu, wedi'u dylunio a'u hadeiladu'n benodol, wedi'u rheoli a'u cynnal a'u cadw fel parciau neu erddi cyhoeddus. Eu bwriad yw cynnig cyfleoedd hygyrch, o ansawdd uchel ar gyfer hamdden anffurfiol a digwyddiadau cymunedol. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys parciau gwledig.

ix. Ym Mro Morgannwg, mae **35** o fannau wedi'u nodi o fewn y categori hwn sy'n amrywio o ran maint o 0.18 hectar i 97.52 o hectarau. Cyfanswm arwynebedd Parciau a Gerddi Cyhoeddus ym Mro Morgannwg yw **252.82** o hectarau.

x. Mae'r rhan fwyaf o'r Parciau a'r Gerddi Cyhoeddus ym Mro Morgannwg i'w cael ym mhrif aneddiadau trefol y Barri a Phenarth gyda'r ddau anheddiad hyn yn cyfrif am dros 86% o'r math hwn o fannau agored. Mae'r cyfanswm ffigur yn cael ei gynyddu'n sylweddol gan gynnwys y ddau brif barc gwledig sydd gyda'i gilydd yn cyfrif am oddeutu 179 o hectarau o'r ddarpariaeth sydd ar gael.

xi. Ar hyn o bryd, mae arwynebedd parciau a gerddi ym Mro Morgannwg yn cyfateb i **1.92** hectar fesul 1000 o'r boblogaeth. Mae Atodiad 1 yn rhoi mwy o fanylion am y parciau a'r gerddi a nodwyd ym Mro Morgannwg.

**Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled-naturiol**

xii. Mae mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol yn ardaloedd o dir heb eu datblygu yn bennaf lle nad oes unrhyw neu lawer o waith cynnal a chadw yn digwydd sydd dros amser wedi cael eu cytrefu'n naturiol gan fywyd gwyllt a llystyfiant. Mae'r ardal yn tueddu i fod yn gyffredinol hygyrch ar droed i nifer mawr o breswylwyr lleol.

xiii. Ym Mro Morgannwg mae **113** o safleoedd o fannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol wedi'u nodi sy'n cwmpasu cyfanswm arwynebedd o **794.01** o hectarau. Mae hyn yn cyfateb i **6.01** hectar fesul 1000 o'r boblogaeth. Fodd bynnag, mae'r ffigur cyffredinol yn cael ei gynyddu'n sylweddol gan gynnwys tir comin yn y deipoleg sy'n cyfrif am 559 o hectarau o'r ddarpariaeth a nodwyd. Mae cynnwys coedwigoedd Cwm George a Case Hill yn yr adolygiad hwn hefyd wedi cyfrannu 98.27 o hectarau ychwanegol.

xiv. Gan gynnwys tir comin ac wedi'i hasesu yn erbyn safon Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o 2 hectar fesul 1000 o'r boblogaeth, mae'r ddarpariaeth o fannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol ym Mro Morgannwg yn amrywio o ddarpariaeth annigonol o **13.23** o hectarau i ddarpariaeth ormodol o **402.45** o hectarau.

xv. Mae Atodiad 2 yn rhoi gwybodaeth fanwl am y mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol sydd wedi'u nodi ym Mro Morgannwg.

**Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored**

xvi. Mae cyfleusterau chwaraeon awyr agored yn cwmpasu amrywiaeth eang o fannau agored ac yn cynnwys arwynebau naturiol ac artiffisial sy'n darparu ar gyfer chwaraeon a hamdden. Mae'r cyfleusterau a gwmpesir yn cynnwys caeau chwarae, cyrtiau tenis, lawntiau bowlio, cyrsiau golff, traciau athletau ac ardaloedd chwaraeon awyr agored eraill. Prif ddiben y math hwn o fannau agored yw cynnig cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon awyr agored. Mae darpariaeth Chwaraeon Dan Do yn cael ei hystyried ar wahân yn y papur cefndir ar Gyfleusterau Cymunedol.

xvii. Ym Mro Morgannwg mae **138** o gyfleusterau chwaraeon awyr agored wedi'u nodi gan gwmpasu arwynebedd o **837.88** o hectarau o dir. Fodd bynnag, mae'r ffigur pennawd hwn yn cynnwys **11** o gyrsiau golff cyhoeddus neu breifat sy'n cyfrif am **634.58** o hectarau gan gynnwys estyniad i ffin Cottrell Park Golf Resort, sy'n ystumio'r ffigur cyffredinol yn sylweddol.

xviii. Wedi'i asesu yn erbyn safon feincnod ddiwygiedig Meysydd Chwarae Cymru (MChC) o 1.60 hectar fesul 1000 o'r boblogaeth, mae'r asesiad yn dangos amrywiad sylweddol yn lefel y ddarpariaeth gan amrywio o ddarpariaeth annigonol o **15.10** o hectarau i ddarpariaeth ormodol o **135.05** o hectarau.

xix. Mae Atodiad 3 yn rhoi gwybodaeth fanwl am y Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored sydd wedi'u nodi ym Mro Morgannwg.

**Mannau Gwyrdd Amwynder**

xx. Mae mannau gwyrdd amwynder yn ddisgrifiad cyffredinol ar gyfer mannau gwyrdd a thirlunio sy'n meddalu ardaloedd trefol, yn galluogi hamdden anffurfiol ac yn cynnig lleoliad ar gyfer adeiladau. Mae'r math hwn o fannau agored i'w cael yn fwyaf cyffredin mewn ac o amgylch datblygiadau tai modern ac yn gyffredinol maent wedi'u creu gyda'r prif ddiben o gynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden anffurfiol fel loncian neu fynd â chŵn am dro neu ar gyfer chwarae anffurfiol i blant yn agos at y cartref. Mae llawer o'r ardaloedd hyn yn lleiniau bach o dir sydd yn weddill ar ôl cwblhau datblygiad, ond serch hynny maent yn cyfrannu at amwynder lleol.

xxi. Ym Mro Morgannwg, mae **393** o safleoedd o'r fath wedi'u nodi gan gwmpasu arwynebedd o **109** o hectarau. Mae hyn yn cyfateb i **0.83** hectar o fannau gwyrdd amwynder fesul 1000 o'r boblogaeth ar draws Bro Morgannwg. Wedi'i osod yn erbyn safon Meysydd Chwarae Cymru (2024) o 0.60 fesul 1,000 o'r boblogaeth byddai hyn yn dangos darpariaeth ormodol bresennol o fannau gwyrdd amwynder ym Mro Morgannwg o **29.82** o hectarau.

xxii. Mae'r asesiad wedi ceisio cynnwys dim ond yr ardaloedd hynny o fannau amwynder a ystyriwyd yn ddigon mawr i ddarparu ar gyfer rhyw lefel o hamdden anffurfiol; mae ardaloedd llai sy'n darparu amwynder gweledol yn unig wedi'u heithrio. O ganlyniad, bydd cyfanswm y mannau gwyrdd amwynder sydd ar gael ym Mro Morgannwg yn gyson fwy na'r hyn a nodwyd yn yr asesiad. Mae Atodiad 4 yn rhoi gwybodaeth fanwl am y Mannau Gwyrdd amwynder sydd wedi'u nodi ym Mro Morgannwg.

**Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc**

xxiii. Mae'r math hwn o fannau agored yn cynnwys mannau offer chwarae, Ardaloedd Chwaraeon Aml-ddefnydd (AChAau) a pharciau sglefrfyrddio a chyfleusterau chwarae mwy anffurfiol lle mae'r nod yw darparu i blant fannau chwarae sy'n galluogi rhyngweithio cymdeithasol â'u cyfoedion wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau egnïol. Nid yw chwarae i blant a phobl ifanc yn cynnwys mynd ar drywydd unrhyw nod neu wobr.

xxiv. Mae safonau cenedlaethol ar gyfer mannau offer chwarae ac mae'r rhain wedi'u dynodi naill ai'n Ardaloedd Chwarae Lleol (AChLlau), yn Ardal Offer Chwarae Leol (AOChL) neu'n Ardal Offer Chwarae Cymdogaeth (AOChC), gan ddibynnu ar y maint, yr oedran targed, amrywiaeth a nifer y darnau chwarae.

xxv. Mae'r archwiliad wedi nodi pob ardal chwarae fel naill ai'n AChLl, yn AOChL neu'n AOChC sy'n dystiolaeth o'r gostyngiad mewn ardaloedd chwarae cyffredinol a'r cynnydd yn y tair safon genedlaethol hyn gyda AChLlau heb eu dosbarthu o gwbl yn adolygiad 2013. Yn ogystal, mae'r archwiliad wedi parhau i nodi ardaloedd chwarae ychwanegol sydd, er nad ydynt yn cydymffurfio ag unrhyw un o'r safonau uchod, yn gwneud cyfraniad pwysig at ddarparu ardaloedd chwarae i blant a phobl ifanc.

xxvi. Mae'r asesiad wedi nodi **175** o safleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n gyfanswm o **11.44** o hectarau.

xxvii. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys **74** o AChLlau sy’n cwmpasu **3.58** hectar, **47** o AOChLlau sy'n cwmpasu **3.85** hectar, **15** o AOChCau sy’n cwmpasu **2** hectar, **20** o AChAau sy’n cwmpasu **1.14** hectar, **8** o barciau sglefrfyrddio sy’n cwmpasu **0.43** hectar ac **11** o ardaloedd chwarae cyffredinol sy'n cwmpasu **0.51** hectar.

xxviii. Wedi'i asesu yn erbyn safon ddiwygiedig MChC ar gyfer mannau offer chwarae dynodedig o 0.25 hectar fesul 1000 o'r boblogaeth, mae'r asesiad yn dangos darpariaeth annigonol gyffredinol o gyfleusterau i Blant a Phobl Ifanc ledled Bro Morgannwg, sy'n amrywio o 0.32 hectar i 2.09 hectar, gyda dim ond un ward yn dangos gwarged bach o ran darpariaeth. Mae Atodiad 5 yn rhoi gwybodaeth fanwl am y Ddarpariaeth i Blant a Phobl Ifanc sydd wedi'i nodi ym Mro Morgannwg.

**Rhandiroedd, Gerddi Cymunedol a Ffermydd Dinas**

xxix. Mae gerddi rhandir yn cynnig cyfleoedd i'r bobl hynny sy'n dymuno tyfu eu cynnyrch eu hunain, gan gefnogi iechyd, cynaliadwyedd a chynhwysiant cymdeithasol.

xxx. Mae'r archwiliad wedi nodi **27** o safleoedd rhandir ledled Bro Morgannwg sy'n cwmpasu arwynebedd o **19.69** o hectarau. Fel y gellir disgwyl, mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd rhandir a nodwyd wedi'u lleoli o fewn y prif aneddiadau trefol sy'n gynrychioliadol o ddatblygiad hanesyddol gerddi rhandir ac mae'r brif ddarpariaeth i'w chael yn y Barri a Phenarth gydag **11.86** a **3.81** o hectarau'n cael eu canfod ym mhob anheddiad yn y drefn honno. Mae Atodiadau 7 yn rhoi gwybodaeth fanwl am y ddarpariaeth randir bresennol ym Mro Morgannwg.

**Mynwentydd a Mynwentydd Eglwysi**

xxxi. Mae mynwentydd a mynwentydd eglwysi'n fannau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer claddu'r meirw. Mae ganddynt rôl eilaidd ond pwysig wrth hyrwyddo bywyd gwyllt a bioamrywiaeth.

xxxii. Mae'r archwiliad wedi nodi **64** o fynwentydd a mynwentydd eglwysi gan gynnwys **1** safle claddu gwyrdd ym Mro Morgannwg sy'n cwmpasu arwynebedd cyfunol o **37.61** o hectarau. Rhennir hyn rhwng **7** o fynwentydd gydag arwynebedd cyfunol o **18.89** o hectarau, **57** o fynwentydd eglwysi gydag arwynebedd cyfunol o **13.97** o hectarau a **1** safle claddu gwyrdd gydag arwynebedd o **4.74** hectar. Mae Atodiad 6 yn rhoi gwybodaeth fanwl am y Mynwentydd a'r Mynwentydd Eglwysi sydd wedi'u nodi ym Mro Morgannwg.

**Darpariaeth Mannau Agored**

xxxiii. Mae'r adran hon o'r papur cefndir yn adeiladu ar yr archwiliad mannau agored ac yn ystyried y gofynion hamdden sy'n debygol o godi o ganlyniad uniongyrchol i'r twf yn y boblogaeth sy'n gysylltiedig â'r datblygiadau tai a nodwyd o fewn y CDLl. Mae'r adran yn canolbwyntio'n benodol ar ddarparu mannau chwarae i blant a chwaraeon awyr agored ac yn ystyried y lefelau presennol o ddarpariaeth o fewn y ward neu'r ardal gymunedol lle cynigir datblygiad newydd ac yn cymhwyso safonau darpariaeth derbyniol i gyfrifo gofynion am fannau agored yn y dyfodol. Mae'r dyraniadau tai CDLl newydd yn darparu ar gyfer 7,890 o anheddau sy'n cynnwys cymysgedd o faint a math o safleoedd mewn gwahanol leoliadau ledled Bro Morgannwg.

xxxiv. Dylai datblygiadau preswyl newydd ddarparu cyfleusterau lleol priodol yn agos at gartrefi pobl. Bydd disgwyl i ardaloedd mannau agored ar raddfa fach, gan gynnwys mannau offer chwarae i blant, fel arfer gael eu darparu ar safleoedd datblygiadau tai a byddant yn cael eu sicrhau naill ai trwy amodau cynllunio neu gytundebau adran 106 ac yn cynnwys darpariaeth briodol ar gyfer gofal a chynnal a chadw yn y dyfodol. Pan fo maint neu gyfyngiadau safle yn golygu na fyddai'n ymarferol darparu cyfleusterau newydd ar y safle, ystyrir darpariaeth amgen oddi ar y safle.

xxxv. Mewn llawer o achosion, ni fydd safleoedd datblygu yn ddigon mawr i ddarparu cyfleusterau chwaraeon awyr agored strategol priodol e.e. caeau chwarae, cyrtiau tenis, caeau criced, i fodloni'r anghenion cronnol sy'n deillio o ddatblygiadau preswyl newydd. Felly, bydd Rhwymedigaethau Cynllunio yn cael eu defnyddio i geisio cyfraniadau i ddarparu'r cyfleusterau hyn mewn mannau eraill a/neu i wella mannau agored a chyfleusterau hamdden presennol yn yr ardal leol. Ar safleoedd mawr h.y. dros 500 o anheddau, rhagwelir y bydd cyfleusterau chwaraeon awyr agored fel caeau chwarae yn cael eu darparu ar y safle.

**Mannau Chwarae Plant**

xxxvi. Mae Safonau Meysydd Chwarae Cymru (MChC) yn gofyn am 0.25 hectar o Fannau Offer Chwarae Dynodedig fesul 1000 o'r boblogaeth (neu 2.5 metr sgwâr y pen). Yn ogystal, mae MChC yn categoreiddio mannau chwarae plant yn dri math ar gyfer gwahanol grwpiau oedran fel a ganlyn:

- **Ardaloedd Chwarae Lleol** (AChLlau) ar gyfer plant ifanc (4-6 oed) sy'n cynnwys parth gweithgareddau o 100m$^2$; nid oes angen offer chwarae ar AChLl fel y cyfryw, gan ddibynnu'n fwy ar nodweddion arddangosol sy'n dangos bod chwarae yn cael ei annog yn gadarnhaol.
- **Ardaloedd Offer Chwarae Lleol** (AOChLlau) ar gyfer plant 4-8 oed sy'n cynnwys parth gweithgareddau o 400m$^2$ gyda 5 math o offer chwarae; ac
- **Ardaloedd Offer Chwarae Cymdogaeth** (AOChCau) ar gyfer plant hŷn (8-14 oed) sy'n cynnwys parth gweithgareddau o 1000m$^2$ gydag 8 math o offer chwarae.

xxxvii. Felly, gan ddefnyddio maint cyfartalog aelwyd o 2.26 ar gyfer Bro Morgannwg (Cyfrifiad 2021), mae'n bosibl cyfrifo'r boblogaeth debygol a fydd yn deillio o ddatblygiadau tai newydd a'r angen am fannau offer chwarae i blant fel a ganlyn:

***Safon ar gyfer Chwarae Awyr Agored Plant = Nifer yr anheddau X maint cyfartalog aelwyd (2.26) X safon fesul person (2.5m2)***

## Chwarae Anffurfiol

xxxviii. Mae'r canllawiau wedi'u diweddaru yn glir bod "darparu mannau offer chwarae annibynnol yn unig mewn datblygiadau yn gyfyngol, mae'r Meincnodau felly'n ymgorffori symiau mannau offer chwarae a chwarae anffurfiol. Er mwyn sicrhau ansawdd, dylai strategaeth chwarae a mannau agored safle cyfan ddangos sut mae gwahanol fathau o fannau chwarae yn cael eu hintegreiddio mewn datblygiad, wedi'u cysylltu â'i gilydd, yn agos at y cartref ac wedi'u dylunio i wella eu lleoliad gan ddarparu ystod o brofiadau chwarae rhyng-gysylltiedig yng nghanol datblygiad."

xxxix. O ganlyniad, yn ychwanegol at safonau mannau offer chwarae, mae safon ar gyfer chwarae anffurfiol. Gall hyn gynnwys er enghraifft, llwybrau pwmp neu ardaloedd chwaraeon aml-ddefnydd a nodweddion chwareus wedi'u hintegreiddio a'u dosbarthu o fewn datblygiad. Y safon chwarae anffurfiol yw 0.3 hectar fesul 1,000 o'r boblogaeth.

***Safon ar gyfer Chwarae Anffurfiol = Nifer yr anheddau X maint cyfartalog aelwyd (2.26) X safon fesul person (3m2)***

## Chwaraeon Awyr Agored

xl. O ran cyfleusterau hamdden strategol, mae Safon Feincnod MChC ar gyfer yr Holl Chwaraeon Awyr Agored yn gofyn am 1.60 hectar fesul 1000 o'r boblogaeth (neu 16 metr sgwâr y pen). Unwaith eto, gan ddefnyddio maint cyfartalog aelwyd o 2.26 ar gyfer Bro Morgannwg (Cyfrifiad 2021), mae'n bosibl cyfrifo'r boblogaeth debygol a fydd yn deillio o bob datblygiad tai newydd ac felly cyfrifo'r angen am fannau chwaraeon awyr agored fel a ganlyn:

***Safon ar gyfer chwaraeon awyr agored = Nifer yr anheddau X maint cyfartalog aelwyd (2.26) X safon fesul person (16m2)***

## Dadansoddiad Safleoedd Tai Annisgwyl

xli. Yn ogystal â'r gofynion mannau agored a nodwyd trwy ddyraniadau safleoedd tai'r CDLl, mae'r astudiaeth hefyd yn ystyried twf ychwanegol yn y boblogaeth trwy safleoedd heb eu dyrannu neu safleoedd annisgwyl a thrwy gydol cyfnod y cynllun rhagwelir y bydd 2,448 o anheddau ychwanegol yn cael eu darparu ar safleoedd o'r fath. Rhagwelir, gan fod y safleoedd hyn yn safleoedd cynhenid fach neu gyfyngedig, na fyddant â'r lle i ddarparu digon o fannau agored ar y safle, ac felly bydd angen darparu cyfleusterau oddi ar y safle.

**Gofynion Mannau Agored**

xlii. Mae'r astudiaeth yn ystyried y gofynion ar gyfer mannau agored a gynhyrchir gan bob un o'r dyraniadau datblygu preswyl yn ogystal â'r dyraniadau annisgwyl canfyddedig ar gyfer pob un o'r aneddiadau a nodwyd yn seiliedig ar ddadansoddiad o dueddiadau hanesyddol. Pan fo safleoedd yn gallu sicrhau'r ddarpariaeth mannau agored angenrheidiol ar y safle, mae'r rhain yn cael eu nodi yn Nhabl 15 ac yn cael eu cefnogi gan gynnwys polisi o fewn y CDLl Adneuo. Lle mae prinder mannau agored na ellir eu darparu ar ddyraniadau datblygu, mae lleoliadau ar gyfer darpariaeth oddi ar y safle wedi'u nodi.

**Casgliadau**

xliii. Mae'r adroddiad yn cynnig archwiliad o'r mannau agored presennol ym Mro Morgannwg ac yn amlinellu'r ystod o fannau agored ar draws teipolegau perthnasol y manylir arnynt yn NCT 16. Fel awdurdod gwledig gydag arfordir helaeth, mae swm y ddarpariaeth mannau agored a nodwyd yn y papur cefndir yn cael ei gynyddu'n sylweddol gan yr arfordir a'r cefn gwlad agored y mae'n hawdd i boblogaeth Bro Morgannwg gael mynediad atynt yn gyffredinol.

xliv. Mae'r archwiliad yn cynnig tystiolaeth gefndir i lywio a chefnogi'r broses o gymhwyso Polisïau Rheoli Datblygu o fewn y Cynllun, ond ni fydd yr unig wybodaeth y dibynnir arni wrth ystyried gofynion ar gyfer darparu mannau agored yn y dyfodol.

xlv. Bydd y dyraniadau tai a nodwyd o fewn y CDLl Adneuo'n darparu ar gyfer 3,520 o anheddau ychwanegol ym Mro Morgannwg dros gyfnod y Cynllun. Disgwylir 1,303 o anheddau eraill fel datblygiad annisgwyl. Bydd angen i'r safleoedd hyn ddarparu lefelau priodol o seilwaith cymunedol gan gynnwys cyfleusterau chwarae a mannau agored cyhoeddus yn unol â darpariaethau cyfres o Bolisïau Rheoli Datblygu ac unrhyw safonau perthnasol a phriodol a ddefnyddir gan Adran Cynnal a Chadw Tiroedd Cyngor Bro Morgannwg. Yn hyn o beth, mae'r Cynllun Adneuo'n gwneud darpariaeth ar gyfer cyfleusterau chwarae plant a chyfleusterau chwaraeon awyr agored newydd a/neu well ar draws Bro Morgannwg fel y nodir yn Rhan Dau y

papur cefndir lle nodwyd diffygion. Yn ogystal, mae'r Cynllun Adneuo’n darparu ar gyfer estyniadau sylweddol i Barc Gwledig Porthceri.

xlvi. Bydd yr wybodaeth a gynhwysir yn y papur cefndir hwn yn helpu i drafod darparu mannau chwaraeon awyr agored a mannau chwarae plant newydd neu well. Fodd bynnag, bydd Cyngor Bro Morgannwg bob amser yn defnyddio'r safonau diwygiedig fel y'u manylir yn Llawlyfr Cynllunio a Dylunio ar gyfer Chwarae a Chwaraeon Awyr Agored Meysydd Chwarae Cymru fel sail ar gyfer sicrhau cyfleusterau ychwanegol neu well. Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac unrhyw fecanweithiau asesu yn y dyfodol i ddarparu mannau agored o ansawd.

RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Cyfarwyddiaeth Lleoedd
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

